Ministry of Defence

Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig a baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993
Medi 2021

© Hawlfraint y Goron 2021
Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu ysgrifennwch at yr Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni i'r cyfeiriad canlynol: MOD-WelshLanguageScheme@mod.gov.uk

Datganiad Polisi’r Cynllun Iaith Gymraeg

Mae’r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi mabwysiadu’r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg ar **08/10/2021**

Dim ond gyda chytundeb y Weinyddiaeth Amddiffyn a Chomisiynydd y Gymraeg y bydd y Cynllun hwn yn cael ei newid.

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r fersiwn diwygiedig hwn o'n Cynllun Iaith Gymraeg, sy'n adeiladu ar sylfeini Cynllun blaenorol y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Rydym wedi manteisio ar y cyfle i wella'r ffordd rydym yn cynnal ein busnes ar hyn o bryd gan ganolbwyntio'n benodol ar yr agenda ddigidol.

Fel Adran, rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd a gwerth y Gymraeg. Rydym yn cymryd ein hymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun hwn o ddifrif a byddwn yn parhau i weithio gyda Senedd Cymru a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg; gan chwilio am ffyrdd o fod yn esiampl i Adrannau eraill o'r Llywodraeth o ran y gwasanaethau dwyieithog rydym yn eu cynnig.

David Williams
Yr Ysgrifennydd Parhaol

Cynnwys

Datganiad Polisi'r Cynllun Iaith Gymraeg

Rhagair

Cyflwyniad

Cefndir y sefydliad

Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn

Cwmpas y Cynllun hwn

Pencampwr y Gymraeg ym maes Amddiffyn

1. Cynllunio a darparu gwasanaethau, a safonau gwasanaethau

Safonau Darparu

Polisïau a chynlluniau

Darparu gwasanaethau

Gwasanaethau a gyflawnir ar ein rhan gan drydydd parti

Gweithio mewn partneriaeth ac mewn consortiwm

2. Ymgysylltu â chyhoedd Cymru

Dewis Iaith

Gohebiaeth

Cyfathrebu dros y ffôn

Cwrdd ag unigolion yng Nghymru

Recriwtio ar gyfer Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn, Milwyr Wrth Gefn a Gweision Sifil yng Nghymru

Ymweld ag ysgolion yng Nghymru, y Rhaglen Allgymorth, Rhaglen STEM y Lluoedd Arfog yng Nghymru, a'r Cadetiaid

Cyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol yng Nghymru, gan gynnwys Hysbysiadau Swyddogol a Chyhoeddus

Arddangosfeydd a Chynadleddau yng Nghymru, gan gynnwys cynadleddau o bell a fideogynadledda

Arolygon cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru

Digwyddiadau sydd ar agor i'r cyhoedd yng Nghymru, gan gynnwys Diwrnodau Agored a Sioeau Awyr

Ymgysylltu Ar-lein

Deunydd a gyhoeddir ar-lein

Porth Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gov.uk

Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol swyddogol Canolfannau Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Unedau Busnes y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru

Gwefannau unigol sy'n ymwneud â Chanolfannau Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Unedau Busnes y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu Canolfannau Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Unedau Busnes y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru, a hynny ar-lein, yn y brif ffrwd a'r cyfryngau torfol

Hysbysiadau i'r wasg a chysylltiadau â'r cyfryngau yng Nghymru

Hunaniaeth gorfforaethol, gan gynnwys arwyddion a hysbysiadau ar gyfer Canolfannau Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn ac Unedau Busnes y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru

3. Rhoi'r cynllun hwn ar waith

Staffio

Y Wici Cymraeg, hyfforddiant iaith, galwedigaethol ac ymwybyddiaeth

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Trefniadau mewnol

Monitro, arolygon cyhoeddus ac archwiliadau

Adolygu a diwygio'r Cynllun hwn

Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

Atodiad A Cylch Gorchwyl Pencampwr y Gymraeg ym maes Amddiffyn

Atodiad B Llwybr Asesu Effaith ar y Gymraeg ac ar Gymru

Atodiad C Cynllun Gweithredu yn cynnwys y prif dargedau ar gyfer cyflwyno'r Cynllun hwn

Cyflwyniad

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ('y Ddeddf'), mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus sy'n cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru i baratoi Cynllun Iaith Gymraeg yn egluro sut y byddan nhw'n darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae hwn yn ddiwygiad i'n Cynllun Iaith Gymraeg, a gymeradwywyd yn flaenorol gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2009. Rydym wedi manteisio ar y cyfle i adolygu ac i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth Gymraeg bresennol ac i ystyried sut y gallem wella'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Cefndir i'n sefydliad

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Adran o'r Wladwriaeth, sy'n cyflogi oddeutu 57,000 o weithwyr sifil ac oddeutu 195,000 o bersonél y lluoedd arfog.

Ein gweledigaeth yw bod y Deyrnas Unedig (y DU) yn ddiogel a ffyniannus. Mae popeth rydym yn ei wneud yn y DU ac o amgylch y byd yn cael ei sbarduno gan benderfyniad i amddiffyn ein pobl a'n gwerthoedd, a sicrhau bod ein gwlad yn ffynnu.

Ein pwrpas yw diffinio'r strategaeth a manteisio i'r eithaf, o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd, ar y gallu amddiffyn sydd ei angen i wneud y canlynol:

- atal unrhyw fygythiad i, ac os oes angen, amddiffyn, rhyddid a chyfanrwydd y DU a'i thiriogaethau dibynnol, drwy ddarparu cymorth yn ôl yr angen, i'r awdurdod sifil wrthsefyll terfysgaeth;
- cyfrannu at hyrwyddo buddiannau diogelwch ehangach y DU, gan gynnwys diogelu a gwella rhyddid a sefydliadau democrataidd a hyrwyddo masnach rydd
- ac felly i hyrwyddo heddwch a gweithredu fel grym er lles, er mwyn helpu i wneud y gorau o fri a dylanwad rhyngwladol y DU.

Rydym hefyd yn gyfrifol am Veterans UK, sy'n gweinyddu Cynlluniau Pensiwn y Lluoedd Arfog ac sy'n gwasanaethu tua 365,000 o aelodau. Rydym yn gweinyddu taliadau iawndal ar gyfer y rheini sy'n cael eu hanafu neu'n dioddef profedigaeth trwy wasanaethu ac rydym yn darparu pecyn o gymorth lles i gyn-filwyr drwy Wasanaeth Lles Cyn-filwyr (VWS) cenedlaethol a llinell gymorth i gyn-filwyr.

Mae gennym bresenoldeb mawr yng Nghymru. Mae nifer o Ganolfannau Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn (Canolfannau Lluoedd Arfog yr MOD), Unedau Busnes y Weinyddiaeth Amddiffyn, is-adrannau canolog ac asiantaethau wedi'u lleoli neu eu cynrychioli yng Nghymru.

Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn (MODWLS)

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r un statws i'r Gymraeg a'r Saesneg mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i drin y ddwy iaith yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

O ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, bydd safonau statudol yn disodli Cynlluniau Iaith Gymraeg a bydd yn rhaid i rai sefydliadau cyhoeddus gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg. Ond, fel Corff y Goron, byddwn yn parhau i weithredu Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn (*'y Cynllun hwn'*) gan ddiwygio ein Cynllun presennol er mwyn ei gryfhau.

Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn, wrth gynnal ein busnes gyda siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn rhoi'r egwyddor honno ar waith, cyn belled â bo hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Bydd ein Hysgrifennydd Parhaol yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn bodloni darpariaethau'r Ddeddf, fel y nodir yn y Cynllun hwn, ac mae wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros reoli a hwyluso'r Cynllun hwn o ddydd i ddydd i'r tîm MODWLS.

Dim ond gyda chytundeb y Weinyddiaeth Amddiffyn a Chomisiynydd y Gymraeg y bydd y Cynllun hwn yn cael ei newid.

Cwmpas y Cynllun hwn

Mae'r Cynllun hwn yn berthnasol i holl swyddogaethau pencadlysoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Lluoedd Arfog a nifer o Gyrff Hyd Braich, gan gynnwys Cronfeydd Masnachu ac Asiantaethau Gweithredol, sy'n gweithredu o fewn canllawiau polisi eang a bennir gan Weinidogion.

Bydd Cadlywyddion a Chyfarwyddwyr yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun hwn o fewn eu cylchoedd rheoli.

Yn ogystal â'r rheini sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, mae'r Cynllun hwn yn berthnasol i staff sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru ar hyn o bryd ond sy'n ymwneud â meysydd sydd o ddiddordeb arbennig i bobl Cymru, er enghraifft, hedfan isel.

Lle nad oes gan ein Hasiantaethau Gweithredol eu Cynlluniau Iaith Gymraeg eu hunain, byddwn yn eu hannog a'u helpu i fabwysiadu'r Cynllun hwn.

Byddwn yn defnyddio ein dylanwad i hybu ymwybyddiaeth o anghenion siaradwyr Cymraeg a byddwn yn annog cyrff cyhoeddus anadrannol perthnasol i fabwysiadu egwyddorion y Ddeddf.

Yn y Cynllun hwn, mae'r term *cyhoedd* yn golygu unigolion, personau cyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys mudiadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac unigolion eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd wedi'u cynnwys yn y term *cyhoedd.*

Ond, nid yw'n cynnwys pobl sy'n gweithredu mewn capasiti sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth, neu lle bo'n briodol, staff contract sy'n darparu gwasanaeth ar eu rhan. O ganlyniad, nid yw unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair *cyhoedd* pan fyddant yn cyflawni swyddogaethau swyddogol.

Pencampwr y Gymraeg ym maes Amddiffyn (MODWLC)

Rydym wedi cydnabod pwysigrwydd penodi Pencampwr y Gymraeg ym maes Amddiffyn (MODWLC). Mae'r MODWLC yn uwch swyddog sydd mewn sefyllfa dda i arwain y gwaith o hybu ymgysylltiad a chydymffurfiad â'r Cynllun hwn yn yr Adran drwyddi draw a drwy ei berthynas ag uwch randdeiliaid yng Nghymru, i'n cynghori ar yr effaith y gall ein polisïau a'n prosiectau ei chael ar Gymru a'r iaith Gymraeg. Mae Cylch Gorchwyl y rôl hon wedi'u nodi yn Atodiad A.

1. Cynllunio a darparu gwasanaethau, a safonau gwasanaethau

Safonau Darparu

Byddwn yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yn Gymraeg o'r un safon â'r rhai a ddarperir yn Saesneg, yn unol â'r Cynllun hwn.

Polisïau a chynlluniau

Bydd ein polisïau, ein cynlluniau a'n gwasanaethau'n cyd-fynd â'r Cynllun hwn. Byddan nhw'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg i helpu'r cyhoedd yng Nghymru i'w defnyddio, lle bynnag y bo modd, fel rhan o'u bywydau bob dydd.

Mae'r rhaid i'n polisïau gynnal Dadansoddiad Cydraddoldeb, er mwyn ystyried effaith bosibl unrhyw bolisi sydd wedi'i gynnwys mewn prosiect neu fenter ar wahanol grwpiau sy'n cael eu gwarchod rhag gwahaniaethu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Er nad yw'n nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgorffori cydymffurfiaeth â'r Gymraeg yng ngham cynllunio unrhyw un o'n polisïau neu fentrau ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn Llwybr Asesu'r Effaith ar y Gymraeg ac ar Gymru (*MOD WWLIAP*) Cynllun Iaith Gymraeg newydd y Weinyddiaeth Amddiffyn, rhan o Becyn Cymorth MODWLS, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Bydd angen i berchnogion polisïau, mentrau a rhaglenni'r Weinyddiaeth Amddiffyn gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar y Cynulliadau Datganoledig sydd ar gael yn y Pecyn Cymorth MODWLS. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddiadau i gysylltu'n brydlon â thîm y MODWLS a'r MODWLS unwaith y bydd yr effaith ar Gymru a/neu'r Gymraeg wedi'i nodi. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn ystyried yn gynnar y gofyniad i asesu'r effaith ar Gymru ac i drin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg wrth gyflawni ein polisïau, ein mentrau a'n rhaglenni.

Bydd yr MOD WWLIAP wedi'i gynnwys yn yr Adnodd Asesu Gwybodaeth mewn Amddiffyn (KiD) sy'n diffinio sut rydym yn cynnal, yn llywodraethu ac yn rheoli ein proses gaffael, a dyma brif ffynhonnell yr holl bolisïau a chanllawiau sy'n rheoli swyddogaethau cyflenwi a masnach ein prosiectau a'n mentrau.

Mae Atodiad B yn cynnwys amlinelliad o'r MOD WWLIAP.

Pan fyddwn ni'n cyfrannu at ddatblygu neu gyflawni polisïau, cynlluniau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd a fydd wedi'i arwain gan sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r Cynllun hwn.

Byddwn yn sicrhau, pryd bynnag y bo modd, bod deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth newydd yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru drwy ein haelodaeth o Weithgor Cynllun Iaith Gymraeg traws-Lywodraeth, dan arweiniad yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Darparu gwasanaethau a safonau gwasanaethau

Darperir gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cynllun hwn ac a reolir gan dîm y MODWLS.

Ein trefn arferol yw sicrhau bod yr holl wasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg. Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am hyn drwy ddiweddaru porth dwyieithog Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn (y Porth Cymraeg) ar wefan gov.uk a thrwy gyhoeddiadau ar gyfryngau cymdeithasol dwyieithog MODWLS.

Bydd dull gweithredu holl Ganolfannau Lluoedd Arfog yr MOD ac Unedau Busnes yr MOD yn dibynnu'n fawr ar natur ei heffaith ar y cyhoedd a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Ond, gellir dyrannu adnoddau'n hyblyg rhwng Canolfannau Lluoedd Arfog yr MOD ac Unedau Busnes yr MOD er mwyn cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun hwn.

Gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan drydydd partïon ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn

I'n helpu i gyflawni ein hamcanion, mae angen cymorth nifer o gyflenwyr allanol.

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partïon sydd wedi eu lleoli yng Nghymru neu y tu allan i Gymru yn cyd-fynd â'r rhannau perthnasol o'r Cynllun hwn, pan fo'r cytundebau neu'r trefniadau hynny'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Bydd ein prosesau a'n fframwaith caffael, ynghyd â dyfarniad unrhyw gontractau dilynol, yn dod o fewn cylch gwaith yr MOD WWLIAP.

Os yw'n briodol, cyfeirir at y Cynllun hwn yn y gwahoddiadau i dendro. Wrth ddyfarnu unrhyw gontract, byddwn yn sicrhau bod y gofynion hynny'n cael eu hystyried a'u cytuno gyda'r darparwr gwasanaeth er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r Cynllun hwn.

Gweithio mewn partneriaeth ac mewn consortiwm

Pan fyddwn yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth lle bo sefydliad arall yn arwain, bydd ein cyfraniad at y bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

Pan fyddwn mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â´r Cynllun hwn.

Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu'n unol â'r Cynllun hwn.

.

2. Ymgysylltu â chyhoedd Cymru

Dewis iaith

Rydym yn cynnig y dewis i'r cyhoedd yng Nghymru ymgysylltu â ni naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Gall y cyhoedd ddewis ymgymryd â'u holl fusnes, neu rywfaint o'u busnes, gyda ni yn Gymraeg ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig a llafar. Yn ystod cyfnod o ohebu ag unigolyn, bydd y dewis iaith yn cael ei sefydlu ar y pwynt cyswllt cyntaf ac yn cael ei gadw mewn storfeydd diogel gan Swyddogion Cyswllt Cynllun Iaith Gymraeg lleol neu'r tîm MODWLS.

Ar ôl i'r ohebiaeth ddod i ben, bydd yn cael ei chadw, yn unol ag Amserlen Gadw'r Weinyddiaeth Amddiffyn, sydd ar hyn o bryd yn gyfnod o 7 mlynedd.

Gohebiaeth Ysgrifenedig

Bydd Canolfannau Lluoedd Arfog yr MOD ac Unedau Busnes yr MOD yng Nghymru yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Bydd yr enw, cyfeiriad a'r wybodaeth safonol arall yn ddwyieithog ar lythyrau a negeseuon e-bost gan y Canolfannau Lluoedd Arfog yr MOD ac Unedau Busnes yr MOD hynny i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ar gardiau busnes, bathodynnau adnabod ac unrhyw nwyddau a deunyddiau perthnasol eraill.

Bydd pob gohebiaeth allanol ar ffurf copi caled neu e-bost y byddwn ni'n ei chyhoeddi i'r cyhoedd yng Nghymru yn cynnwys bloc llofnod dwyieithog. Byddwn yn hyrwyddo'r neges bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â ni drwy gynnwys yr ymadrodd "Mae croeso i chi ysgrifennu ataf yn Gymraeg neu Saesneg /Please write to me in Welsh or English" yn ein blociau llofnod ar ohebiaeth grŵp ac unigol, os ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer siaradwyr Cymraeg ac ar y Porth Cymraeg ar wefan gov.uk.

Rydym yn croesawu llythyrau a phost electronig (e-bost) yn Gymraeg. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn anfon ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamser targed ar gyfer ymateb yr un fath ag ar gyfer ymateb i lythyrau a ysgrifennir yn Saesneg. Os nad yw'n bosibl anfon ateb sylweddol o fewn y cyfnod hwn, anfonir cydnabyddiaeth ysgrifenedig ac eglurhad yn Gymraeg.

Wrth ohebu, byddwn yn defnyddio'r fersiwn wreiddiol yn Gymraeg a dderbyniwyd gan ein gwasanaeth cyfieithu i sicrhau bod y fersiwn Gymraeg a anfonwn yn gywir a'i fod yn osgoi gwallau cyfieithu a phrotocol iaith.

Wrth ddelio â deunyddiau personol sensitif, byddwn hefyd yn anfon copi Saesneg o'r ohebiaeth.

Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r holl ohebiaeth yn cael eu storio'n ddiogel, yn unol ag egwyddorion Rheoli Cofnodion y Weinyddiaeth Amddiffyn fel y nodir yn y Polisi Gwybodaeth, Dealltwriaeth, Digidol a Data ym maes Amddiffyn.

Pan gyfeirir llythyr at grŵp penodol y mae ei fuddiannau'n perthyn i gwmpas y Cynllun hwn, neu pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchol at nifer o aelodau'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Os bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth yn cael eu paratoi ar wahân, ein harfer yw sicrhau bod y naill fersiwn a'r llall ar gael ar yr un pryd.

Byddwn yn ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi, fel yr hyn a ddarperir o dan ddeddfwriaeth Hawliau Gwybodaeth, gan gynnwys Rhyddid Gwybodaeth neu adroddiadau neu ganllawiau technegol, yn cael ei darparu yn yr iaith wreiddiol y maen nhw wedi'i chadw ynddi.

Bydd deunyddiau sy'n cael eu benthyca neu'n cael eu defnyddio dan drwydded yn cael eu darparu yn yr iaith y cawsant eu cyhoeddi ynddi'n wreiddiol.

Bydd hyn yn berthnasol i ohebiaeth electronig yn ogystal â gohebiaeth bapur.

Os nad yw ar gael am ddim, ni fydd pris fersiwn dwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad uniaith a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath. Bydd hyn yn berthnasol i ddeunydd sydd ar gael yn electronig ar y Porth Cymraeg ar wefan gov.uk neu mewn fformat arall.

.

Gohebiaeth ffôn

Byddwn yn sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn gallu siarad â ni yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth gysylltu â ni ar ein llinell gymorth Gymraeg. Y rhif penodedig yw 01554 821 413. Codir y gyfradd safonol am bob galwad.

Bydd pob galwad i'r llinell gymorth hon yn cael ei hateb yn Gymraeg ac yn cael ei throsglwyddo i'r tîm MODWLS a fydd, os oes modd, yn trosglwyddo'r ymholiad i un o'n siaradwyr Cymraeg yng Nghanolfan Lluoedd Arfog yr MOD neu Uned Fusnes yr MOD sydd fwyaf cymwys i helpu. Bydd cofrestr o'n siaradwyr Cymraeg yn cael ei chadw ar ein systemau, ynghyd â'u meysydd arbenigedd, er mwyn gallu delio ag ymatebion yn amserol.

Bydd unrhyw newid i'r llinell gymorth dros y ffôn yn cael ei drafod gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac yn cael ei gyhoeddi ar y Porth Cymraeg ar wefan gov.uk.

Bydd galwyr Cymraeg eu hiaith sy'n ffonio Canolfan Lluoedd Arfog yr MOD neu Uned Fusnes yr MOD yn uniongyrchol ac sy'n dymuno cael sgwrs yn Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i siaradwr Cymraeg yn yr uned honno.

Os nad oes gan siaradwr Cymraeg yng Nghanolfan Lluoedd Arfog yr MOD neu Uned Fusnes yr MOD yr arbenigedd i ateb yr ymholiad yn uniongyrchol, bydd y galwr yn cael y dewis i barhau â'r alwad yn Saesneg neu ysgrifennu at y Ganolfan neu'r Uned (bydd ateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu yn Gymraeg).

Bydd rhif y llinell gymorth Gymraeg yn cael ei hysbysebu ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg ar y Porth Cymraeg ar wefan gov.uk. Byddwn yn sicrhau bod y sefydliadau trydydd parti sy'n darparu

cyngor a gwasanaethau ar ein rhan yng Nghymru yn ymwybodol o'r llinell gymorth Gymraeg ac yn rhoi cyhoeddusrwydd priodol iddi.

Cwrdd ag Unigolion yng Nghymru

Pan fyddwn ni, neu drydydd parti ar ein rhan, yn cynnal cyfarfodydd ag aelodau unigol o'r cyhoedd yng Nghymru, bydd eu dewis iaith yn cael ei sefydlu cyn gynted â bo modd, a phan fo hynny'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod aelod o'n staff sy'n medru'r Gymraeg ac sydd â chymhwysedd priodol yn ymgysylltu â'r rheini y mae'n well ganddynt siarad Cymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg â chymhwysedd priodol ar gael, byddwn yn cynnig y dewis o barhau â'r cyfarfod yn Saesneg neu ddelio â'r pwnc drwy lythyr neu e-bost yn Gymraeg.

Bydd yr un peth yn wir am gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal drwy fideogynadledda a fformatau tebyg, lle bo hynny'n ymarferol, ar yr amod bod pawb sy'n cymryd rhan yr un mor rhugl yn y Gymraeg a'u bod yn fodlon cynnal y cyfarfod yn yr iaith honno.

Recriwtio ar gyfer Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan gynnwys Milwyr Wrth Gefn a Gweision Sifil

Recriwtio ar gyfer Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan gynnwys Milwyr Wrth Gefn

Bydd recriwtio ar gyfer Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cael ei gyfuno o dan un contract newydd, a fydd yn cwmpasu tri Llu Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan gynnwys Milwyr Wrth Gefn. Bydd y contract yn cynnwys y gofyniad i gael swyddogion recriwtio sy'n siarad Cymraeg, os bydd angen, i gynnal trafodaethau cychwynnol wrth recriwtio yng Nghymru.

Bydd yr elfennau dethol ffurfiol o'r broses recriwtio (cyfweliadau, asesiadau ysgrifenedig a cheisiadau cliriad diogelwch) yn cael eu cynnal yn Saesneg er mwyn bodloni gofynion iaith hyfforddiant a chyflogaeth filwrol.

Recriwtio ar gyfer y Gwasanaeth Sifil

.

Mewn cyfweliadau recriwtio'r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru, os ydy'r recriwtiwr a'r ymgeisydd yn gallu ac yn fodlon cynnal y cyfan neu ran o'r cyfweliad yn Gymraeg, gallant wneud hynny. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw drydydd parti rydym yn eu contractio ar ein rhan i gynnal y cyfweliadau hyn yn dilyn y mesurau yn y Cynllun hwn.

Mae angen i'r sectorau hynny o'n sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru allu cael gafael ar ddigon o staff Cymraeg sy'n meddu ar y sgiliau priodol i'n galluogi i ddarparu gwasanaeth llawn yn Gymraeg. Bydd pob swydd yng Nghymru a'r rheini sydd â chyswllt helaeth a/neu reolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru yn cael eu hasesu ar gyfer y rhuglder sydd ei angen.

Os yw bod yn rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol, bydd hyn yn cael ei nodi yn y cymwyseddau sgiliau a'r hysbysebion ar gyfer y swydd.

Fel rhan o'r broses recriwtio, bydd iaith y cyfweliad yn adlewyrchu'r anghenion ieithyddol a nodir yng ngofynion y swydd.

Gellir penodi ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar ei chyfer ond lle caniateir amser i ddysgu'r iaith. Yn yr achosion hyn, bydd dysgu'r iaith i'r lefel ofynnol o gymhwysedd, o fewn cyfnod y rhesymol y cytunwyd arno, yn amod o'r gyflogaeth.

Pan na ellir dod o hyd i ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, byddwn yn gwneud trefniadau dros dro i barhau i wneud defnydd o'r Gymraeg; drwy ddefnyddio, er enghraifft, siaradwyr Cymraeg o rannau eraill o'n sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth.

Hysbysiadau Recriwtio

Gall hysbysiadau recriwtio ar gyfer staff sy'n cael eu gosod, gennym ni neu drydydd parti dan gontract, mewn cyfnodolion Saesneg a chyhoeddiadau eraill, sy'n cael eu dosbarthu ledled y DU, fod yn Saesneg, oni bai fod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Os felly, gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog neu'n Gymraeg gydag esboniad byr yn Saesneg.

Bydd pob digwyddiad recriwtio neu hysbyseb recriwtio yn dilyn y mesurau a nodir yn y Cynllun hwn.

Ymweld ag ysgolion, Allgymorth, Rhaglen STEM y Lluoedd Arfog yng Nghymru, a'r Cadetiaid

Rydym yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau Allgymorth yng Nghymru; yn benodol, cyflwyniadau i ysgolion a chyfranogiad yn Rhaglen Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Gan adeiladu ar y deunyddiau dwyieithog a ddarperir gan y Rhaglen STEM, byddwn yn ehangu ein darpariaeth i gynnwys mwy o'n cyflwyniadau yn Gymraeg a byddwn yn annog ein siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan yn y rhaglenni Allgymorth.

Cyfarfodydd Cyhoeddus Ffurfiol a Hysbysiadau Swyddogol yng Nghymru

Ychydig iawn o gyfarfodydd cyhoeddus rydym yn eu cynnal fel Adran. Fel arfer, ni fyddai sesiynau briffio ar gyfer grwpiau o gynghorwyr a digwyddiadau tebyg yn cael eu hystyried yn gyfarfodydd "cyhoeddus". At ddibenion y Cynllun hwn, mae cyfarfodydd ffurfiol yn cynnwys gwrandawiadau ffurfiol, ymchwiliadau, achosion cyfreithiol a digwyddiadau tebyg eraill.

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog a byddwn yn gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i ni ymlaen llaw pa iaith yr hoffent ei defnyddio yn y cyfarfod gan ddefnyddio opsiwn pleidleisio, a fydd ar gael ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus hwnnw, ar y Porth Cymraeg.

Yna byddwn yn ystyried y galw am y Gymraeg wrth benderfynu ar ba gyfleusterau cyfieithu i'w darparu ac yn rhoi gwybod ymlaen llaw i'r rhai sy'n mynychu pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael drwy'r Porth Cymraeg ar gov.uk.

Bydd yr un peth yn wir ar gyfer unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol a gynhelir yng Nghymru gan ddefnyddio fideogynadledda a fformatau tebyg. Lle bo'n ymarferol, ar yr amod bod pawb sy'n cymryd rhan yr un mor rhugl yn y Gymraeg a'u bod yn fodlon cynnal y cyfarfod yn yr iaith honno, cânt wneud hynny.

Wrth ddewis staff i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus ffurfiol yng Nghymru, ein harfer fydd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg sydd â chymwysterau addas yn mynychu, lle bo hynny'n bosibl.

Bydd unrhyw arddangosfeydd clyweledol, teithiau sain neu gyfryngau rhyngweithiol a baratoir gennym ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y cyfarfodydd ffurfiol hyn yng Nghymru yn ddwyieithog.

Ym mhob achos, os byddwn yn asesu y byddai'n briodol darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, bydd yn cael ei ddarparu. Bydd trawsgrifiadau llawn yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â bo hynny'n ymarferol, ar y Porth Cymraeg ar gov.uk.

Wrth ddarparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ac ar gyfer adroddiadau neu bapurau a gaiff eu cynhyrchu o ganlyniad i gyfarfodydd yng Nghymru, byddwn yn eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â'r Cynllun hwn.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol neu gyhoeddus a osodir mewn mannau eraill yng Nghymru yn ddwyieithog.

Arddangosfeydd a Chynadleddau, gan gynnwys cynadleddau o bell a fideogynadledda

Pan fyddwn yn trefnu arddangosfeydd a chynadleddau, neu ddigwyddiadau tebyg ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu'n Gymraeg; drwy gynnig opsiwn pleidleisio ymlaen llaw ar y Porth Cymraeg, edrych ar ddemograffeg y gynulleidfa a ragwelir, ac ystyried ffurf y digwyddiad.

Byddwn yn ystyried y galw am y Gymraeg wrth benderfynu ar ba gyfleusterau cyfieithu i'w darparu ac yn rhoi gwybod ymlaen llaw i'r rhai sy'n mynychu pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael drwy'r Porth Cymraeg ar gov.uk.

Bydd yr un peth yn wir ar gyfer unrhyw arddangosfa a chynhadledd a gynhelir yng Nghymru gan ddefnyddio fideogynadledda a fformatau tebyg.

Wrth bennu staff ar gyfer arddangosfeydd yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys ar gael yn ôl yr angen.

Bydd unrhyw arddangosfeydd clyweledol, teithiau sain neu gyfryngau rhyngweithiol a baratoir gennym ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn yr arddangosfeydd a'r cynadleddau hyn yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n cynnwys isdeitlau Cymraeg, lle bo hynny'n rhesymol neu'n ymarferol. Bydd deunydd sy'n cael eu benthyca neu'n cael eu defnyddio dan drwydded yn cael eu dangos yn yr iaith wreiddiol.

Lle bo'n rhesymol ac yn ymarferol, bydd unrhyw ddeunydd sydd ar gael i'r cyhoedd ar stondinau arddangos, naill ai gennym ni neu arddangoswyr gwadd, yn cael eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru naill ai'n ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ansawdd cyfartal.

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer arddangosfeydd a chynadleddau yng Nghymru yn ddwyieithog.

Bydd amgueddfeydd yng Nghymru sy'n cael cymorth ariannol gennym yn cael eu hannog i ddarparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Arolygon Cyhoeddus a gynhelir gennym neu ar ein rhan yng Nghymru

Pan fyddwn ni, neu drydydd parti dan gontract, yn cynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru, byddwn ni'n sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, bydd cyfle i ymatebwyr ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru gan gynnwys Diwrnodau Agored Canolfannau Lluoedd Arfog yr MOD a Sioeau Awyr, a elwir yn "Ddigwyddiadau Agored" hefyd

Bydd yr holl gyhoeddusrwydd, gwybodaeth i'r cyhoedd, deunydd arddangos a hysbysebu ar gyfer digwyddiadau agored yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Bydd hyn yn cynnwys posteri, hysbysfyrddau, baneri "naid" dros dro a mathau eraill o arddangosfeydd cyhoeddus, hysbysebion yn y cyfryngau prif ffrwd, ymgyrchoedd ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol, a hysbysebion ar y teledu a'r radio.

Bydd unrhyw hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg neu ddeunyddiau tebyg, a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac o'r un maint, amlygrwydd ac ansawdd.

Wrth bennu staff ar gyfer stondinau ac arddangosfeydd digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys ar gael yn ôl yr angen.

Os bydd angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddeunydd print ar wahân, bydd y ddau fersiwn yr un maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.

Bydd unrhyw ffrydiau fideo byw neu wedi'u recordio, arddangosfeydd clyweledol, teithiau sain neu gyfryngau rhyngweithiol a baratoir gennym ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y digwyddiadau cyhoeddus hyn yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n cynnwys isdeitlau Cymraeg, lle bo hynny'n rhesymol neu'n ymarferol.

Lle bo'n rhesymol ac yn ymarferol, bydd unrhyw ddeunydd sydd ar gael i'r cyhoedd ar stondinau arddangos, naill ai gennym ni neu arddangoswyr gwadd, yn cael eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru naill ai'n ddwyieithog neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd y rhain o ansawdd cyfartal.

Bydd deunydd sy'n cael eu benthyca neu'n cael eu defnyddio dan drwydded yn cael eu dangos yn yr iaith wreiddiol.

Byddwn yn sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod cyhoeddiadau ar systemau annerch cyhoeddus mewn mannau cyhoeddus, yr ydym yn gyfrifol amdanynt, yn ddwyieithog. Fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd

lle mae risg uchel, lle mae amser yn hollbwysig neu mewn argyfwng, efallai na fydd modd cyfathrebu'n ddwyieithog.

Ymgysylltu Ar-lein

Deunydd a Gyhoeddir Ar-lein

Wrth benderfynu a yw unrhyw ddeunydd yn dod o dan y Cynllun hwn, bydd perchnogion ac awduron gwybodaeth yn defnyddio, pan fyddant ar gael, MOD WWLIAP a System Sgorio Deunydd Cyhoeddedig MODWLS (MOD PMSS), sydd ar gael ym Mhecyn Offer MODWLS.

Rhoddir blaenoriaeth i ddeunydd sydd wedi'i anelu at y rheini sydd â diddordeb mewn ymuno â'r Lluoedd Arfog; wedi'i anelu at deuluoedd darpar recriwtiaid a gwybodaeth sy'n ymwneud â gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru ee pecyn cymorth Gwasanaethau Lles i Gyn-filwyr.

Porth Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn ar gov.uk

Mae holl wefannau adrannau'r llywodraeth wedi cael eu cyfuno i gov.uk. Mae gwefan gov.uk, sy'n cael ei rhedeg gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth, yn casglu ynghyd gwybodaeth a gwasanaethau gan bob un o adrannau llywodraeth y DU, a channoedd o gyrff hyd braich.

Os asesir bod deunydd yn dod o dan y Cynllun hwn, bydd y Porth Cymraeg yn cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, a'n trefn arferol fydd darparu fersiynau Cymraeg o dudalennau rhyngweithiol.

Pan fyddwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg o gyhoeddiadau ar y Porth Cymraeg ar wefan gov.uk, byddwn yn eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiynau Saesneg lle bo hynny'n ymarferol. Byddwn yn gweithio gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i ddarparu cyfieithiadau o'n tudalennau gwe.

Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth a gyhoeddir ar y Porth Cymraeg ar wefan gov.uk yn cynnwys dolenni clir at dudalennau Cymraeg gan gynnwys; fersiynau Cymraeg o dudalennau a ddarperir gennym, Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn (yn Gymraeg ac yn Saesneg) a fersiynau Cymraeg o ddeunyddiau cyhoeddedig.

Byddwn yn datblygu'r Porth Cymraeg ymhellach ar wefan gov.uk i ganoli'r wybodaeth honno.

Bydd rhywfaint o'r wybodaeth ar y Porth Cymraeg yn rhyngweithiol, ar ffurf print bras a/neu'n cydymffurfio â'r safon hygyrchedd. Gellir argraffu popeth yn uniongyrchol neu gall y cyhoedd ofyn am gopi ysgrifenedig neu gopi wedi'i argraffu, pan fydd ar gael.

Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol Swyddogol

Rydym yn cydnabod bod modd ymgysylltu'n well â'r cyhoedd drwy gyfryngau cymdeithasol, a bod disgwyl i hynny ddigwydd yn aml. Byddwn yn mabwysiadu dull pragmatig ac yn ymrwymo i gyfathrebu'n Gymraeg ac yn Saesneg os yw'r cynnwys wedi'i dargedu at gynulleidfa Gymreig, ee hedfan yn isel.

Bydd yr holl gyfathrebiadau'n cael eu darparu yn yr un iaith â'r neges a gychwynnodd yr ymateb. Byddwn yn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o fodolaeth y cyfrifon hyn, gan godi ymwybyddiaeth ohonynt drwy'r Porth Cymraeg ar wefan gov.uk a gan annog y cyhoedd i gysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg gan ddefnyddio'r sianel hon.

Wrth benderfynu pa ddeunydd sy'n dod o dan y Cynllun hwn, bydd perchnogion ac awduron gwybodaeth yn cydymffurfio â'r mesurau a amlinellir yn y Cynllun hwn. Rhaid i ddefnyddwyr awdurdodedig cyfrifon cyfryngau cymdeithasol swyddogol eu defnyddio'n unol â'r Cynllun hwn, yn ogystal â chanllaw cyfryngau cymdeithasol perthnasol y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Bydd cyfrif cyfryngau cymdeithasol MODWLS swyddogol yn cael ei sefydlu i roi gwybod i'r cyhoedd pan fydd gwybodaeth neu ddigwyddiadau newydd yn cael eu hychwanegu at y Porth Cymraeg ar gov.uk.

Gwefannau unigol sy'n ymwneud â Chanolfannau Lluoedd Arfog yr MOD ac Unedau Busnes yr MOD yng Nghymru

Bydd Canolfannau Lluoedd Arfog yr MOD ac Unedau Busnes yr MOD yng Nghymru yn cadw eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol swyddogol a'u gwefannau swyddogol, a fydd yn cynnwys fersiwn Cymraeg ar wahân a fydd yn cael ei ddatblygu a'i gynnal yn unol â'r Cynllun hwn.

Disgwylir y bydd Hafan y gwefannau unigol hyn naill ai'n ddwyieithog neu bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Wrth benderfynu os yw unrhyw ddeunydd yn dod o dan y Cynllun hwn, bydd perchnogion ac awduron gwybodaeth yn cydymffurfio â'r mesurau a amlinellir yn y Cynllun hwn.

Bydd gwybodaeth a chyhoeddiadau archif ar y wefan ar gael yn yr iaith gyhoeddi wreiddiol yn unig.

Deunyddiau cyhoeddedig, ffurflenni a deunyddiau esboniadol eraill

Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth ar fersiynau Cymraeg ffurflenni sy'n cael eu hanfon at y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg. Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog sy'n cael eu hanfon at y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ei bod yn hysbys y byddai'n well gan y derbynnydd gael y wybodaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig.

Os caiff y fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi ar wahân, ee lle byddai un ddogfen yn rhy hir neu swmpus, bydd amlygrwydd, ansawdd, hygyrchedd ac argaeledd y ddau fersiwn yr un fath ar yr un pryd, lle bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol. Bydd pob fersiwn uniaith yn nodi bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu deunydd ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny'n unol â'r Cynllun hwn.

Ymgyrchoedd Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd, gan gynnwys yn y cyfryngau prif ffrwd, ar y teledu a'r radio

Bydd unrhyw hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg neu ddeunyddiau tebyg, a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac o'r un maint, amlygrwydd ac ansawdd.

Pan fo'n briodol ac er mwyn adlewyrchu iaith y sianel, byddwn yn darparu deunydd i'w ddarlledu yn Gymraeg. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglenni Cymraeg; ymgyrchoedd radio sy'n cael eu darlledu ar Radio Cymru neu yn ystod rhaglenni Cymraeg ar radio masnachol. Ein trefn arferol fydd defnyddio actorion sy'n siarad Cymraeg ac osgoi defnyddio is-deitlau Cymraeg neu ddybio hysbysebion i'r Gymraeg, ac eithrio trosleisio.

Bydd y defnydd o'r Gymraeg, gennym ni neu gan drydydd parti sy'n darparu'r gwasanaeth i ni, yn cael ei ystyried o'r cychwyn cyntaf, wrth i ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd gael eu datblygu, er mwyn sicrhau bod unrhyw frandio, sloganau, negeseuon craidd a negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn gweithio'n dda yn Gymraeg.

Hysbysiadau i'r wasg a chysylltiadau â'r cyfryngau yng Nghymru

Bydd datganiadau i'r wasg sy'n ymwneud â'n gweithgareddau yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg pan fydd amserlenni'n caniatáu. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw ddatganiadau i'r wasg sydd ar gael yn Gymraeg ar y Porth Cymraeg a Swyddfa Cymru ar y llwyfan gov.uk yn yr un modd â'r fersiynau Saesneg.

Lle bo modd, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweliadau â'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.

Hunaniaeth gorfforaethol

Bydd Canolfannau Lluoedd Arfog yr MOD ac Unedau Busnes yr MOD yng Nghymru yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Bydd yr enw, cyfeiriad a'r wybodaeth safonol arall yn ddwyieithog ar lythyrau a negeseuon e-bost gan yr unedau hynny i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ar gardiau busnes, bathodynnau adnabod ac unrhyw nwyddau a deunyddiau perthnasol eraill.

Dylid nodi bod y "Ministry of Defence", "Royal Navy", "British Army" a'r "Royal Air Force" yn enwau a brandiau byd-enwog; felly ni fydd Bathodyn y Weinyddiaeth Amddiffyn, logo'r Llynges Frenhinol, bathodyn "Cleddyfau Croes" y Fyddin Brydeinig, rondel yr Awyrlu Brenhinol na'r enwau "Royal Navy", "British Army" a "Royal Air Force" yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Y rheswm am hyn yw ein bod yn defnyddio'r term "logo" i olygu "hunaniaeth weledol".

Mae hunaniaeth weledol y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Llynges Frenhinol, y Fyddin a'r Awyrlu Brenhinol i gyd yn cynnwys dwy elfen, bathodyn a disgrifiad o'r testun. Yn achos y Llynges Frenhinol, y Fyddin a'r Awyrlu Brenhinol, mae'r disgrifiadau testunol hyn yn nodau masnach ac yn rhan annatod o'r logo, yn ddarostyngedig i gyfraith Herodrol.

O ganlyniad, dim ond pan ddefnyddir y termau hyn fel dynodwyr testunol h.y. fel rhan o'r logo, sy'n ddyfais graffig na fyddan nhw'n cael eu cyfieithu. Bydd testun cyhoeddiadau a hysbysebion dwyieithog ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Arwyddion a hysbysiadau ar ffin neu o fewn perimedr Canolfannau Lluoedd Arfog yr MOD ac Unedau Busnes yr MOD yng Nghymru

O ran arwyddion a hysbysiadau ar ffin neu o fewn perimedr Canolfannau Lluoedd Arfog yr MOD ac Unedau Busnes yr MOD yng Nghymru yr ydym yn gyfrifol amdanynt, byddant naill ai'n ddwyieithog neu bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ac, os yw'n berthnasol, fersiwn Cymraeg o'r logo neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
Mae hyn yn cynnwys yr arwyddion allanol wrth fynedfa ac ar berimedr Canolfannau Lluoedd Arfog yr MOD ac Unedau Busnes yr MOD, a mannau eraill lle mae mynediad cyhoeddus rheolaidd. Bydd hyn yn berthnasol i faneri naid hysbysebu dros dro a swyddogol.

Pan fo arwyddion dwyieithog ar wahân neu Gymraeg a Saesneg yn cael eu darparu, byddant o'r un fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

Bydd pob arwydd a hysbysiad newydd yng Nghymru yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl o fewn cyfyngiadau adnoddau a chyllid.

3. Rhoi'r Cynllun hwn ar waith

Staffio

Byddwn yn chwilio am wybodaeth am sgiliau Cymraeg staff presennol, a fydd yn cael eu storio yn ein systemau Adnoddau Dynol.

Y Wici Cymraeg, hyfforddiant iaith, galwedigaethol ac ymwybyddiaeth

Byddwn yn darparu cronfa ganolog ar gyfer yr holl wybodaeth, rheolau a chanllawiau sy'n gysylltiedig â chyflawni darpariaethau'r Cynllun hwn. Bydd yn wefan ddwyieithog ar ffurf Wikipedia™ wedi'i chynnal ar Lwyfan Wici Amddiffyn, ac yn cael ei alw'n Wici Cymraeg MODWLS (*y Wici Cymraeg*).

Byddwn yn rhoi'r cyfle i holl aelodau'r tîm MODWLS a Swyddogion Cyswllt Lleol MODWLS gymryd rhan mewn rhaglen ymwybyddiaeth ar y Cynulliadau Datganoledig, er mwyn deall yn well effaith polisïau, mentrau a gwasanaethau ar Gymru, y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Ar ôl cael eu cyflogi, bydd gweithwyr yng Nghanolfannau Lluoedd Arfog yr MOD ac Unedau Busnes yr MOD yng Nghymru yn cael gwybodaeth am y Cynllun ym Mhecyn Cychwynnol eu Canolfan neu Becyn Cynefino eu Huned, a fydd yn cynnwys dolen i'r Wici Cymraeg ac yn ymdrin â phrif agweddau'r Cynllun hwn a gyda phwy i gysylltu.

Rydym wedi ymrwymo i annog ein staff, yn enwedig y rheini sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, i ddysgu'r Gymraeg ac i wella eu gallu i siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg, er mwyn ein galluogi i ddarparu ein gwasanaethau yn Gymraeg.

I gefnogi'r ymrwymiad hwn, mae'r rhaglen "Iaith Gwaith" wedi cael ei hychwanegu at Restr Ieithoedd Awdurdodedig yr Ysgol Ymgysylltu Amddiffyn, y Ganolfan Amddiffyn ar gyfer Ieithoedd a Diwylliant ac mae ar gael i bawb ar draws y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Pan fydd aelod o staff wedi cytuno i ddysgu Cymraeg, fel amod o'i gyflogaeth barhaus, mewn swydd lle mae rhuglder yn cael ei ystyried yn "hanfodol"; bydd hyfforddiant iaith yn cael ei ychwanegu at ei Gynllun Datblygu Personol a bydd yn cael amser i ymgymryd â'r dysgu hwn.

Byddwn yn annog ein siaradwyr Cymraeg i ymuno â'n Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg, sy'n cael ei arwain gan ein Pencampwr Iaith Gymraeg ym maes Amddiffyn, gyda'r nod o ehangu'r defnydd o'r Gymraeg.

Bydd hyfforddiant arbenigol ar gyfer rolau a dyletswyddau penodol, ac eithrio'r rhai a amlinellir yn y Cynllun hwn, yn parhau i gael ei ddarparu yn Saesneg gan ein hyfforddwyr neu drydydd parti dan gontract.

Bydd mesurau, canllawiau a phrosesau mewnol y Cynllun hwn y disgwylir i'n holl staff ac unrhyw gontractwyr awdurdodedig ar y safle eu dilyn yn cael eu cyhoeddi ar ein mewnrwyd drwy'r Wici Cymraeg.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg a gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn yn cael ei ystyried wrth i ni ddatblygu, dylunio a chael gafael ar gynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Ar hyn o bryd, rydym wedi dewis mabwysiadu gwasanaeth canolog i ymgymryd â'n holl waith cyfieithu corfforaethol.

Trefniadau mewnol

Mae'r mesurau yn y Cynllun hwn yn cynnwys awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Bwrdd Archwilio'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun hwn sy'n berthnasol i'w gwaith.

Mae'r Pennaeth Stiwardiaeth Gwybodaeth yn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith sy'n angenrheidiol i gyflwyno, monitro ac adolygu'r Cynllun hwn.

Byddwn yn paratoi ac yn diweddaru cynllun gweithredu manwl, yn nodi sut y byddwn yn sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn.

Bydd y cynllun gweithredu hwn (Atodiad C) yn dod i rym ar y dyddiad y bydd y Cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, dyddiadau cau ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

Rydym yn credu bod parhau â'r broses o fabwysiadu'r Cynllun hwn, ar draws holl Ganolfannau Lluoedd Arfog yr MOD ac Unedau Busnes yr MOD, yn ffactor pwysig o ran cynnal ein darpariaeth effeithiol o wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Byddwn yn gwneud hyn drwy gynnwys dolen i'r Cynllun hwn yn y Nodyn Trosglwyddo ffurfiol sy'n cael ei ddefnyddio wrth drosglwyddo Rheolaeth.

Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi i'r staff hynny y mae diwygio'r Cynllun hwn yn effeithio'n sylweddol ar eu gwaith. Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Cynllun hwn ac yn egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith bob dydd.

Bydd y tîm MODWLS yn cydlynu ein holl waith cyfieithu corfforaethol gyda'n gwasanaeth cyfieithu awdurdodedig.

Byddwn yn mynnu mai dim ond cyfieithwyr neu gyfieithwyr ar y pryd cymwys a ddefnyddir i helpu i gyflwyno'r Cynllun hwn.

Byddwn yn mynnu bod unrhyw drydydd parti dan gontract yn defnyddio cyfieithwyr neu gyfieithwyr ar y pryd cymwys ar gyfer cyfieithu deunyddiau electronig a deunyddiau print.

Bydd unrhyw fath o gyswllt gyda siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, e.e. gohebiaeth a galwadau ffôn, yn cael ei wneud mewn modd sy'n gyson â'r mesurau a amlinellir yn y Cynllun hwn.

Monitro, arolygon cyhoeddus ac archwiliadau

Byddwn yn edrych ar ffyrdd o wella ein gwasanaethau, gan ymgynghori â siaradwyr Cymraeg i ofyn iddynt am y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu drwy gyfrwng arolwg boddhad cwsmeriaid, i ddechrau flwyddyn ar ôl i'r Cynllun hwn gael ei gymeradwyo a bob tair blynedd ar ôl hynny.

Bydd gweithrediad y Cynllun hwn yn cael ei fonitro a'i adolygu'n ganolog gan Bennaeth Stiwardiaeth Gwybodaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn. Bydd hwn yn weithgaredd strwythuredig a pharhaus.

Yn ogystal â hynny, gwahoddir trydydd parti allanol i gynnal archwiliad, 18 mis ar ôl i'r Cynllun hwn gael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg a bob 3 blynedd ar ôl hynny, i gynnwys:

adolygiad o'n Hadroddiad Blynyddol diweddaraf;

monitro cydymffurfiad ein darpariaeth o wasanaethau i'r cyhoedd;

canlyniadau'r arolwg boddhad cwsmeriaid diweddaraf;

ymchwilio i gwynion a chyflwyno'r awgrymiadau a wnaed i ni,

ymwybyddiaeth a defnydd cyffredinol o'r ddarpariaeth Gymraeg gan ein staff;

perfformiad ein trydydd partïon dan gontract;

monitro ein perfformiad cyffredinol yn erbyn y targedau a nodir yn y Cynllun hwn ac yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Comisiynydd.

Byddwn yn paratoi adroddiad monitro cyfnodol (*yr Adroddiad Blynyddol*) ac yn ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg pan ofynnir amdano. Bydd yn cynnwys datganiad ar gydymffurfiaeth gyfreithiol, unrhyw adroddiadau archwilio perthnasol a bydd yn amlinellu ein cynnydd o ran gweithredu a chyflawni'r Cynllun hwn.

Adolygu a diwygio'r Cynllun hwn

Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu gan Bennaeth Stiwardiaeth Gwybodaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn cyn pob Adroddiad Blynyddol neu ar unrhyw adeg arall, pan fydd newid i'n swyddogaethau neu i'r amgylchiadau rydym yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny ynddynt, yn ei wneud yn briodol.

Ni fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r Cynllun hwn heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

Os nad yw'r cyhoedd yn fodlon neu eu bod yn dymuno cwyno am y gwasanaeth Cymraeg sy'n cael ei ddarparu yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg, mae modd iddyn nhw gysylltu â ni yn y lle cyntaf yn y cyfeiriadau canlynol:

E-bost: MOD-WelshLanguageScheme@mod.gov.uk
Cyfeiriad Post:

MOD Welsh Language Scheme
United Kingdom Strategic Command
Room HG4
Hackett Building
Defence Academy of the United Kingdom
Schrivenham
SN5 8LA

Byddwn yn ceisio darganfod a datrys y rhan fwyaf o broblemau sy'n peri pryder ar y pwynt cyswllt cyntaf hwn. Os nad yw'r aelod o'r cyhoedd yn fodlon a'u bod yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol, gallant wneud hynny drwy ein proses gwyno sydd ar gael yma:

https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-defence/about/complaints-procedure

Os nad yw'r ymateb i'r gŵyn yn foddhaol, gellir cyfeirio cwynion at Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r manylion ynglŷn â sut i wneud cwyn ar gael yma:

http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/English/Organisations/Complain/Pages/Complaints-form.aspx

Byddwn yn cydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg i ddatrys cwynion ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan adran 17 (fel y'i cymhwysir gan adran 21(s)) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r Cynllun hwn. Bydd pob awgrym yn cael ei gofnodi a'i ystyried yn gadarnhaol. Byddwn yn glynu at egwyddorion y Cynllun wrth weinyddu ateb ysgrifenedig a fydd yn nodi pa gamau rydym wedi'u cymryd neu y byddwn yn eu cymryd.

Os na fyddai unrhyw gamau'n briodol yn yr amgylchiadau neu'n rhesymol ymarferol; byddwn yn darparu esboniad ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw. Dylid cyfeirio awgrymiadau ynghylch y Cynllun hwn at Gynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn yn y cyfeiriadau uchod.

Atodiad A – Cylch Gorchwyl Pencampwr y Gymraeg ym maes Amddiffyn Tachwedd 2020

Pwrpas

Bydd y Pencampwr Iaith Gymraeg ym maes Amddiffyn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar draws y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan helpu'r Adran i weithredu ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â chenedl a phobl Cymru.

Bydd hyn yn helpu'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gyflawni ei hymrwymiadau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesurau'r Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, fel yr adlewyrchir yng Nghynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Mae'r Pencampwr Iaith Gymraeg ym maes Amddiffyn yn gyfrifol am y canlynol:

- Hyrwyddo Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn (MODWLS), annog cydymffurfiaeth o'r brig i lawr a helpu i ddeall ymrwymiadau'r Adran dan y Cynllun Iaith Gymraeg a chanlyniadau peidio â chydymffurfio;
- Cefnogi dulliau a chynlluniau i wella dealltwriaeth yr Adran o'r Cynllun Iaith Gymraeg, gan dynnu sylw at unrhyw rwystrau systemig i gydymffurfio;
- Rhoi cefnogaeth a her i bob rhan o'r Weinyddiaeth Amddiffyn sydd naill ai'n darparu gwasanaethau yng Nghymru neu'n ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru, yn enwedig holl unedau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yng Nghymru, er mwyn hyrwyddo a chefnogi gweithrediad a chyflawniad effeithiol Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n berthnasol i ofynion cyfreithiol yr Adran a bod yn sefydliad dwyieithog sy'n esiampl i Lywodraeth y DU yng Nghymru.

Mae Pencampwr y Gymraeg ym maes Amddiffyn yn gyfrifol am y canlynol:

- Gweithredu fel model rôl a chael ei gydnabod fel cefnogwr a hyrwyddwr yr iaith Gymraeg, gan roi arweiniad i Gynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn a'n cyfrifoldeb corfforaethol i gydymffurfio;
- Dylanwadu ar uwch aelodau eraill o staff y Weinyddiaeth Amddiffyn a'u hannog i hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg a'i ofynion;
- Helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ymlaen llaw wrth lunio polisïau'r Weinyddiaeth Amddiffyn a darparu gwasanaethau;
- Cysylltu â meysydd Adrannol allweddol ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg, gan dynnu sylw at unrhyw broblemau neu rwystrau, ynghyd â meysydd o arfer da, a helpu cydweithwyr i sicrhau unrhyw welliannau angenrheidiol;
- Adeiladu cymuned o ddiddordeb ymysg siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn, codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith Gymraeg, a helpu hefyd i hyrwyddo ei ddarpariaeth yn effeithiol a nodi meysydd posibl i'w gwella;
- Rhoi arweiniad a chefnogaeth wrth gyfleu negeseuon a blaenoriaethau allweddol ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg a'r cynnydd a wneir i staff y Weinyddiaeth Amddiffyn, drwy ddulliau fel; yr Uwch Dîm Rheoli, cyfathrebu, erthyglau mewn cylchlythyrau/blogiau ac ati;
- Ymgysylltu ag aelodau Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth Cymru, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y Weinyddiaeth Amddiffyn a'i chynllun iaith Gymraeg;
- Cysylltu â chyd-Bencampwyr y Gymraeg o adrannau eraill Llywodraeth y DU i rannu arferion gorau a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd;
- Ysgrifennu Datganiad Blynyddol Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg i'w gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn;

Gofyniad

Mae angen i Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg fod yn rhugl yn y Gymraeg.

Rhaid i'r sawl a benodir fod ar raddfa'r Uwch Wasanaeth Sifil neu reng gyfatebol yn Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Apwyntiad

Drwy lythyr penodi ffurfiol gan yr Ysgrifennydd Parhaol.

Hyd y Swydd

Bydd penodiad i rôl Pencampwr y Gymraeg am gyfnod o 2-4 mlynedd o leiaf. Bydd y penodai cyntaf yn y swydd tan fis Rhagfyr 2023.

Atodiad B Prosesau Llwybr Asesu Effaith ar y Gymraeg ac ar Gymru



Mae'r broses hon yn berthnasol i brosiectau a chynlluniau'r Weinyddiaeth Amddiffyn; a bydd y Bwrdd Archwilio Amddiffyn yn archwilio pob un ohonynt, fel y nodir ym mholisi'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar Lywodraethu Corfforaethol.

Mae'r rheolaethau'n dechrau yn y cam cynllunio ac yn parhau gydol oes ar gamau allweddol neu yn ystod adolygiadau polisi, yn unol â'r canlynol:

- Fframwaith Sicrhau Ansawdd Llywodraeth y Weinyddiaeth Amddiffyn a
- Gwybodaeth mewn Amddiffyn (KiD), a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gwblhau'r canlynol
  - **Asesiad y Weinyddiaeth Amddiffyn o'r Effaith ar y Cynulliadau Datganoledig (MOD DAIA)**

  Os bydd yr **MOD DAIA** yn nodi effaith bosibl ar Gymru neu ar yr iaith Gymraeg, bydd yn:
    - mynnu bod Asesiad y Weinyddiaeth Amddiffyn o'r Effaith ar Gymru a'r Gymraeg yn
    - destun craffu gan y MODWLC a thîm y MODWLC i sicrhau bod y lefel effaith gywir wedi'i rhag-weld, a bod Cynllun Gweithredu priodol yn cael ei roi arwaith.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn gwneud y canlynol yn amod:

- bydd yr holl ddeunydd corfforaethol yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r prosiect, y gwasanaeth neu'r polisi hwnnw sy'n berthnasol i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn cael ei asesu gan **System Sgorio Deunydd Cyhoeddedig y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD PMSS)** ac
- os bydd unrhyw ddeunydd corfforaethol yn cyrraedd y trothwy ar gyfer cyhoeddi gan gynnwys ystyriaethau masnachol, cyfreithiol a diogelwch, caiff ei basio i dîm y MODWLS i'w gyfieithu a'i gyhoeddi naill ai'n uniongyrchol ar y Porth Cymraeg ar wefan gov.uk neu ar y Wici Cymraeg ar y fewnrwyd, neu'r ddau.

Atodiad C - Cynllun Gweithredu yn cynnwys y prif dargedau ar gyfer gweithredu'r Cynllun hwn

TARGED	GWEITHREDU	DYDDIAD GWEITHREDU	Statws
Pencampwr y Gymraeg ym maes Amddiffyn	Penodiad ffurfiol gan yr Ysgrifennydd Parhaol Dechrau dyletswyddau yn unol â'r Cylch Gorchwyl	Tachwedd 2020 Tachwedd 2020	WEDI'I GWBLHAU WEDI'I GWBLHAU
1. Polisïau a chynlluniau			
Polisïau, cynlluniau a gwasanaethau i gyd-fynd â'r Cynllun hwn.	Bydd y tîm MODWLS yn darparu dolen i'r dudalen Amddiffyn ac Ymwybyddiaeth o'r Gwledydd Datganoledig ar y Wici Cymraeg.	Erbyn diwedd mis Hydref 2021 Adeg penodi	
	Bydd Swyddog Cyswllt Lleol y Cynllun Iaith Gymraeg yn ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu Ymwybyddiaeth o Amddiffyn a Datganoli.	Erbyn diwedd mis Hydref 2021	
	Datblygu Pecyn Cymorth MODWLS gan gynnwys 1. Asesiad y Weinyddiaeth Amddiffyn o'r Effaith ar y Cynulliadau Datganoledig (MODWLS DAIA) a 2. Asesiad MODWLS o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (MODWLS WLIA) a 3. System Sgorio Deunyddiau Cyhoeddedig Corfforaethol MODWLS (MODWLS PMSS)	Erbyn diwedd mis Tachwedd 2021	
	Cyflwyno'r Pecyn Cymorth MODWLS		

TARGED	GWEITHREDU	DYDDIAD GWEITHREDU	Statws
2. Gohebiaeth a Chyfathrebu			
Cwrdd â'r ymrwymiadau ynglŷn â delio â gohebiaeth sy'n cael ei dderbyn yn Gymraeg, thelegyfathrebu yn Gymraeg a siaradwyr Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn mewn digwyddiadau cyhoeddus	Creu Rhwydwaith Siaradwyr Cymraeg	Erbyn diwedd 2021	
3. Y Rhyngrwyd			
Canoli holl wybodaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n ymwneud â Chymru neu'r cyhoedd yng Nghymru	Diweddaru gwefan bresennol gov.uk gyda'r Cynllun Diwygiedig Creu'r Porth Cymraeg ar gov.uk Creu cyfrif cyfryngau cymdeithasol MODWLS swyddogol Pob gwefan Gwasanaeth unigol ar gyfer unedau yng Nghymru i fod â fersiynau Cymraeg a Saesneg	Lansio'r Cynllun Erbyn diwedd mis Tachwedd 2021 Erbyn diwedd mis Hydref 2021 Erbyn diwedd 2023	
4. Ymwybyddiaeth a Dyrchafiad Mewnol			
Creu un ffynhonnell ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â deunyddiau MODWLS. Cyflwyniad i'r Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer yr holl staff newydd mewn Unedau Busnes a Safleoedd Gwasanaeth yng Nghymru	Creu safle mewnrwyd newydd (Wici Cymraeg y Weinyddiaeth Amddiffyn) a fydd yn cadw copi o'r Cynllun hwn, rhwymedigaethau cyfreithiol, deunyddiau ar gyfer briffio a dolenni i'r Gwledydd Datganoledig a'r gwasanaeth cyfieithu a'r modiwl Ymwybyddiaeth MOD WLS Pecynnau Cynefino/Dechrau i gynnwys dolen i'r Wici Cymraeg	Erbyn diwedd mis Tachwedd 2021 Erbyn diwedd mis Mawrth 2022	

TARGED	GWEITHREDU	DYDDIAD GWEITHREDU	Statws
Dilyniant o ran darparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru	Trefnu bod dolen i'r Wici Cymraeg yn cael ei hychwanegu at adran Rhwymedigaethau Cyfreithiol y dudalen Nodiadau Trosglwyddo Gwybodaeth, G Digidol a Data yn y Polisi Amddiffyn a'r Llawlyfr Gorchmynion	Erbyn diwedd mis Mawrth 2022	
5. Monitro			
Sefydlu mecanwaith adborth cwsmeriaid effeithiol	Cynnal arolwg boddhad cwsmeriaid	Blwyddyn ar ôl lansio'r Cynllun a phob 3 blynedd ar ôl hynny	
Gwerthuso cydymffurfiad â'r Cynllun hwn	Archwiliad Mewnol y Weinyddiaeth Amddiffyn i gynnal archwiliad cydymffurfio	18 mis ar ôl lansio'r Cynllun a phob 3 blynedd ar ôl hynny	
Cynnal Adolygiad Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol o'r MODWLS ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg	1. Tîm y MODWLS i adolygu'r Cynllun a llunio Adroddiad Blynyddol 2. Yr Ysgrifennydd Parhaol i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol yn ffurfiol	I'w gwblhau cyn pob Adroddiad Blynyddol Yn flynyddol ar ôl lansio'r Cynllun	
Ymgysylltu'n effeithiol â Gweithgor Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Ei Mawrhydi (x- Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Ei	Mynychu cyfarfodydd chwarterol Llywodraeth Cymru i rannu arferion gorau Eirioli dros, ac annog gwelliannau i'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan Adrannau'r Llywodraeth a Chyrff Cyhoeddus.	Yn mynd rhagddo Yn mynd rhagddo Yn mynd rhagddo	

TARGED	GWEITHREDU	DYDDIAD GWEITHREDU	Statws
Mawrhydi Llywodraeth Cymru)			